# Adroddiad Gwerth Cymdeithasol 2022/2023



Adra

# Cynnwys


Amdanom ni 4

**POBL 6**

Atal Digartrefedd 7

Cynhwysiant Ariannol 8

Mynd i'r afael gydag Unigrwydd 10

Iechyd Meddwl 13

Cyflogaeth, Sgiliau a Hyfforddiant 15

**CYMUNEDAU 18**

Buddsoddi yn ein cymunedau 19

Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant 25

**CARTREFI 28**

Tîm Trwsio 29

Gwella ein Cartrefi Newydd 29

Adeiladu Cartrefi Newydd 30

Fframwaith Deunyddiau Cymru 31

**AMGYLCHEDD 32**

Beth yr ydym yn ei wneud? 33

Prosiectau Amgylcheddol 34

**Tabl Canlyniadau Gwerth Cymdeithasol 36**


## Rhagair gan Hywel Eifion Jones ac Iwan Trefor Jones

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Gwerth Cymdeithasol cyntaf sy'n dangos y maint enfawr o waith sydd wedi'i gyflawni ym mhob rhan o'r busnes a hefyd gyda'n partneriaid dros y deuddeg mis diwethaf, a'r gwerth cymdeithasol a ddaw yn sgil hynny.

Mae ymrwymiad cadarn yn ein Cynllun Corfforaethol i adeiladu cartrefi o safon y gall pobl fod yn falch ohonyn nhw; i gefnogi ein cymunedau a phobl i ffynnu; i ddatgarboneiddio ein cartrefi, i wella profiad y cwsmer a chryfhau'r busnes.

Rydym eisiau i'n gwaith gael effaith gadarnhaol, nid yn unig ar ansawdd bywydau pobl, ond hefyd eu hamgylchedd a'u dyfodol ac rydym yn ceisio sicrhau bod ein gweithgarwch busnes yn gwneud y gorau o'r gwerth cymdeithasol ac effaith y buddsoddi sydd wedi'i wneud.

Mae gan denantiaid yr hawl i fyw mewn cymunedau sy'n ffynnu, gyda mynediad at swyddi a chyfleoedd o ansawdd drwy ein rhaglenni hyfforddi. Rydym am greu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Rydym am sicrhau bod ein holl waith fel sefydliad a chontractwyr sy'n gweithio i ni ac ar ein rhan yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach yn fwy na thrwsio, cynnal a chadw neu dim ond brics a morter.



Rydym yn gyflogwr sylweddol yn yr ardal ac rydym o'r farn ein bod yn chwarae rhan bwysig yn nhwf yr economi rhanbarthol drwy gyflogi pobl leol sy'n byw ac yn gwario mewn cymunedau lleol.

Rydym eisiau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Rydym wedi mesur effaith ein buddsoddi cymdeithasol a chanlyniadau hyn gan ddefnyddio Dull Prisio Llesiant HACT a'r fframwaith TOM's Cenedlaethol Cymru, y naill a'r llall yn declynnau mesur gwerth cymdeithasol cadarn.



Drwy weithio gyda'n tenantiaid, staff, partneriaid a'r cymunedau ehangach, rydym yn gwneud gwahaniaeth ac mae'r adroddiad hwn yn dathlu cyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf. Drwy gydweithio gyda'n prif randdeiliaid a phartneriaid, rydym yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl bob diwrnod o'r flwyddyn.

**Hywel Eifion Jones**
Cadeirydd y Bwrdd

**Iwan Trefor Jones**
Prif Weithredwr

# Amdanom ni

Ni yw Adra. Rydym yn gweithio gyda chalon gymdeithasol a meddwl masnachol.

## Beth mae gwerth cymdeithasol yn ei olygu i ni?

Yn Adra, rydym eisiau gwneud y mwyaf o'n gwariant, buddsoddi a gweithgareddau i greu gwerth cymdeithasol ychwanegol, tymor hir i bobl o fewn ein cymunedau.

### Ein Blaenoriaethau Gwerth Cymdeithasol

- Cadw ein gwariant yn lleol
- Creu cyfleoedd gwaith i'n tenantiaid a'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau
- Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
- Lleihau ein hôl-troed carbon

### Ein Blaenoriaethau Corfforaethol

1. Darparu profiad rhagorol i'r cwsmer
2. Darparu cartrefi o safon y gellir bod yn falch ohonynt
3. Datgarboneiddio ein cartrefi
4. Cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu
5. Cryfhau ein busnes

## Y 7 Nod Llesiant

Fel Cymdeithas Dai Gymreig, rydym hefyd yn ystyried ein cyfraniad at gyflawni 7 Nod Llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Pum Dull o Weithio yr amlinellir yn y Ddeddf.

**Cymru lewyrchus**

**Cymru gydnerth**

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

**Cymru iachach**

**Cymru o gymunedau cydlynus**

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

## Y Pum Dull o Weithio

**Hirdymor**

**Atal**

**Cydweithio**

**Cynnwys**

**Integreiddio**

## Ein Heffaith Gymdeithasol

# Cyfanswm gwerth cymdeithasol 2022/2023 = £5,751,074

Fel busnes, rydym yn awr ddwy flynedd mewn i'n siwrnai gwerth cymdeithasol. Ers i ni ddechrau edrych ar sut i ddal ein gwerth cymdeithasol a gwerth ychwanegol, rydym wedi penodi Cydlynydd Gwerth Cymdeithasol, ac wedi ceisio prif ffrydio gwerth cymdeithasol ar draws y busnes a'i wreiddio ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Ein nod yw parhau â'r siwrnai hon a gwella'r ffordd yr ydym yn dal y budd ychwanegol y mae ein gweithgareddau yn ei greu ar gyfer ein tenantiaid a phartneriaid, bob blwyddyn.

| Pobl | Cymunedau | Cartrefi | Amgylchedd |
|---|---|---|---|
| **134** wedi cael cymorth i gyflogaeth a hyfforddiant | **£16,916** o grantiau wedi'u rhoi i grwpiau cymunedol lleol | **93%** o'n tenantiaid yn fodlon gyda'r ffordd yr ydym yn atgyweirio, cynnal a chadw eu cartrefi | **151** o'n cartrefi wedi cael gwaith effeithlonrwydd ynni* |
| **£724,000** wedi'i fuddsoddi ar addasiadau o fewn ein cartrefi | **52%** o'n cyflenwyr wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru | **118** o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu | **9** o fannau gwyrdd wedi'u datblygu |
| **419** o ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig wedi cael cymorth | **£208,166** o werth cymdeithasol wedi'i gynhyrchu drwy gontractwyr neu isgontractwyr | **£12.1m** wedi'i fuddsoddi mewn gwaith a gwelliannau mawr i eiddo | **3** pwynt gwefru trydan wedi'u gosod ar gyfer cerbydau staff |
| **81** o bobl wedi cael cymorth drwy ein Gwasanaeth Cefnogaeth Tenantiaid. | **90%** o'n tenantiaid yn teimlo'n ddiogel neu yn ddiogel iawn yn eu cymunedau | **19,281** o geisiadau atgyweirio wedi'u cwblhau yn ein cartrefi | **10%** o'n fflyd yn rhedeg yn gyfan gwbl ar drydan neu hybrid |

*EWI, ffenestri newydd, drysau newydd, to newydd




# POBL

Mae ein hamcanion cymdeithasol fel landlord yn golygu bod angen i ni edrych ar sut y gallwn gynorthwyo pobl i ddod o hyd i gyfleoedd i wella eu bywydau.

Un o'r prif feysydd y canolbwyntir arno yw iechyd a lles ein tenantiaid ac rydym yn ceisio darparu cymorth i fynd i'r afael gyda phroblemau cymdeithasol gan gynnwys unigedd, iechyd meddwl lefel isel, diweithdra a thlodi. Byddwn yn parhau i gyfrannu at fentrau sy'n canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth i greu cymunedau mwy diogel.

## Atal Digartrefedd




**131** o osodiadau i ymgeiswyr digartref ym mhob rhan o Ogledd Cymru.

**£156,576** o werth cymdeithasol wedi ei greu.



### Stori Leia

"Rydym wedi bod yn byw yn ein tŷ newydd gydag Adra ers pum mis bellach. Cawsom y tŷ yma, mis cyn i ni briodi a symud i mewn wythnos ar ôl y seremoni, felly, fe wnaeth popeth ddod at ei gilydd yn wych i ni yn y diwedd.

"Cyn hynny, roeddem wedi bod yn rhentu yn breifat. Roedd gennym do uwch ein pennau hyd at fis Rhagfyr 2022 ond wedyn cawsom wybod gan y landlord bod y cytundeb yn dod i ben. Fe wnaethom ni gysylltu gyda thîm digartrefedd Cyngor Gwynedd, a rhoddwyd ni mewn hostel gyda'n plant, ond nid oedd digon o le i ni gyd yno. 'Doedden ni ond yn gallu mynd â dau o'n plant gyda ni ac roedd rhaid i'r ddau blentyn arall aros gyda fy mam yng nghyfraith, yna, fe wnaethom ni gyfnewid, fel ein bod yn gallu treulio amser gyda nhw i gyd. Roeddem yn yr hostel nes mis Ionawr 2023, ond doedd y plant ddim yn ymdopi. Yn y diwedd, aethom i fyw i dŷ fy mam yng nghyfraith – roedd yna bump oedolyn a pedwar o blant yn yr un tŷ!

"Roedd aros ym mhentref Deiniolen yn bwysig i ni fel teulu, gan fy mod fy chwaer a finna ar lawer o bwyllgorau'r pentref gan gynnwys Pwyllgor Pentre Deiniolen, Cylch Meithrin, Clwb Pêl-droed Deiniolen a Gŵyl Deiniolen. Rydym yn awyddus i wella'r pentref er mwyn ein plant a chenedlaethau'r dyfodol.

"Hefyd, gyda thri o'n plant yn mynd i'r ysgol gynradd ac un arall yn y Cylch Meithrin, y peth dwytha' yr oeddem am ei wneud oedd newid gormod iddyn nhw. Roedd angen i ni aros yma ar gyfer normalrwydd ond hefyd er lles ein hiechyd meddwl.

"Felly, pan gysylltodd Adra gyda ni i ddweud bod ganddyn nhw dŷ i ni yn Neiniolen, roeddem wrth ein bodd! Mae'n wych bod gennym gartref newydd yn yr ardal yr oeddem eisiau - mae'r plant yn gallu aros efo'u ffrindiau yn yr ysgol leol ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny. Mae'r tŷ wedi'i drawsnewid, gyda chegin newydd, ailweirio a system wresogi, sy'n rhagorol. Mae'r tŷ yma wedi gwireddu breuddwyd. Mae gennym sefydlogrwydd, ac nid oes angen i ni boeni am fod yn ddigartref eto".

# Cynhwysiant Ariannol

Cymru iachach

Cydweithio

Hirdymor

## Sesiynau Costau Byw



Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw eleni, mae Adra wedi sefydlu Grŵp Argyfwng Costau Byw Gwynedd ar y cyd gyda nifer o bartneriaid allweddol sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin, Tai Gogledd Cymru, Cyngor ar Bopeth Gwynedd, Adran Gwaith a Phensiynau a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau.

Yn ychwanegol i hyn, rydym wedi cynnal gweithdy staff gyda Sefydliad Bevan i adnabod ein prif flaenoriaethau o fewn y maes tlodi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o sesiynau Argyfwng Costau Byw yn 2022/2023, ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd, Nyth, Gwynedd Digidol, Gwaith Gwynedd, Cyngor ar Bopeth, Grŵp Cynefin, Tai Gogledd Cymru a Dŵr Cymru.

I gynorthwyo ein tenantiaid ymhellach, rydym wedi creu rôl newydd, sef Cydlynydd Lles Ariannol. Penodwyd Sophie Williams ac mae wedi bod yn cynnal hyfforddiant, mynychu gweminarau, rhannu gwybodaeth, creu rhestrau gwirio i staff, a gweithio â'r tîm cyfathrebu i rannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda'n tenantiaid.

## Croeso Cynnes

croeso cynnes WARM SPACES

Mae partneriaid ledled Gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i ddarparu lleoedd cynnes, diogel i bobl sy'n cael trafferth ymdopi gyda chostau ynni uwch gaeaf diwethaf.




Cafodd menter Croeso Cynnes ei hwyluso gan nifer o bartneriaid ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd gan gynnwys Adra, Menter Môn, Cyngor Sir Ynys Môn, Mantell Gwynedd, Cymdeithas Elusennol Ynys Môn, Medrwn Môn, a llawer o sefydliadau fel rhan o Fudiad 2025.

## Gwasanaeth Cyfeirio Cyngor ar Bopeth

Cafodd cytundeb lefel gwasanaeth ei sefydlu gyda Chyngor ar Bopeth yn 2021, fel bod Adra yn gallu cyfeirio tenantiaid iddyn nhw i gael cyngor ar ddyled, cyllidebu neu fudd-daliadau os oedd angen.

**162** o denantiaid wedi eu cyfeirio i Cyngor ar Bopeth.

- Buddsoddiad Adra = **£15,000**
- Gwerth Cymdeithasol sydd wedi'i gynhyrchu = **£1,906,329**
- Enillion Incwm = **£134,783**

cyngor ar bopeth | citizens advice

**Cyfanswm dyled wedi'i dileu = £33,101**

### Stori Cleient A

Roedd Cyngor ar Bopeth wedi cynorthwyo Cleient A gyda'u dyledion drwy gwblhau gwiriad budd-daliadau, rhoi cyngor ar gyllidebu a chynnal asesiad dyled i sicrhau bod y cleient yn cael yr incwm cywir.

Roeddent hefyd am wneud yn siŵr bod y cleient yn ymwybodol o'r arian oedd ar gael, yn ogystal â lleihau eu biliau. Fe wnaethon nhw gysylltu gyda chredydwyr y cleient i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod bod y cleient yn cael help gyda'u dyledion ac i osgoi mynd i'r llys sirol. Rhoddwyd opsiynau dyled i'r cleient, a dewisodd y cleient Orchymyn Rhyddhau o Ddyled; cafodd y cleient eu cefnogaeth gyda hynny.


Cafodd yr holl ddyledion eu dileu ac mae'r cleient wedi cael cymorth a'r sgiliau i gyllidebu yn well yn y dyfodol.

## Gwasanaeth Cyfeirio Warden Ynni

**220** o gwsmeriaid wedi cael cymorth uniongyrchol drwy ein gwasanaeth cyfeirio Warden Ynni.

Mae Jade Beales yn Warden Ynni a dyma oedd ganddi i'w ddweud am y gwasanaeth:

"Mae'n wych pan fydd y gefnogaeth a roddir i denantiaid yn llwyddiannus. Rydym yn eu helpu i ganfod cefnogaeth ariannol drwy'r Disgownt Cartref Cynnes, Sefydliad Banc Tanwydd, lleihau eu biliau dŵr gyda Dŵr Cymru neu rhoi cymorth i addasu prisiau gyda darparwyr ynni. Weithiau, gall cyfeiriad gymryd ychydig wythnosau i'w gwblhau, ond os ydy'r canlyniad yn bositif ar y diwedd, mae'n deimlad anhygoel".



# Mynd i'r afael gydag Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol



Cymru o gymunedau cydlynus



Atal

## Aros Adra

Mae Aros Adra yn wasanaeth y telir amdano sy'n cynnig cymorth i bobl yn eu cartref ac yn ceisio dod â phobl at ei gilydd i gymdeithasu, gwneud ffrindiau newydd a mynd allan o'r tŷ, sydd yn ei dro, yn gwella eu hyder ac yn lleihau effeithiau ynysigrwydd cymdeithasol.

**12** o gwsmeriaid wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn yn 2022/2023.

**£48,165** o werth cymdeithasol wedi ei greu.

### Stori Ryan

Dechreuodd Ryan dderbyn y gwasanaeth ym mis Tachwedd 2019. Mae'n byw yng Nghricieth gyda'i deulu ac ar ôl cael sawl gweithiwr cefnogol drwy Wasanaethau Cymdeithasol, roedd mam Ryan, Pauline wedi methu dod o hyd i weithiwr cefnogol addas ar ei gyfer. Ar ôl clywed am Aros Adra, daeth atom ni.

Mae gan Ryan ychydig o anawsterau dysgu ac angen cymorth gyda rhai pethau gan gynnwys cymdeithasu. Mae'n derbyn gwasanaeth Aros Adra yn wythnosol ac yn ystod y sesiynau mae'n cael gwneud gwahanol bethau fel mynd allan i ginio, siopa, mynd i'r sinema, bowlio, ac ymweld â safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac amgueddfeydd.

Dywedodd Pauline, mam Ryan: "Mae'r gwasanaeth yn golygu 'mod i'n cael ychydig o amser i fi fy hun a hefyd yn gadael i Ryan wneud ei bethau ei hun. Gallaf wneud pethau rwy'n hoffi eu gwneud heb deimlo bod rhaid i Ryan eu gwneud hefyd. Rwy'n hapus, oherwydd rwy'n ymddiried yn y gwasanaeth tra mae Ryan allan; rwy'n gwybod y byddwn yn cael gwybod os yw pethau neu gynlluniau'n newid."





## Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaid

Mae Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaid Adra yn darparu cymorth i denantiaid bregus mewn angen. Ein nod yw helpu unigolion i gynnal eu tenantiaeth drwy ddatblygu eu sgiliau bywyd. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gyllido gan Grant Cymorth Tai, Llywodraeth Cymru a ddarperir i Adra gan Cyngor Gwynedd.

Cafodd y Tîm Cefnogi Tenantiaid **122** o gyfeiriadau newydd ar gyfer y gwasanaeth yn ystod 2022/2023.

Cyfanswm o **6,734** awr o gymorth wedi ei ddarparu.

### Stori Gareth

Mae Gareth yn un o nifer o denantiaid sy'n cael gwasanaeth cymorth tenantiaid gan Adra. Mae'n canmol y gwasanaeth sydd wedi'i gynorthwyo drwy amseroedd anodd.

Dywedodd Gareth: "Mae'r gefnogaeth wedi bod yn wych. 'Roedd yn syndod sylweddoli bod cymorth ar gael oherwydd 'dydych chi ddim yn ei ddisgwyl oed yma. Heb help Adra, ni fyddwn lle ydw i rŵan. Mae wedi bod yn anodd iawn i mi ond dwi'n gwella, diolch i'w help nhw.

"Mae wedi bod yn hawdd cael mynediad at y cymorth dwi wedi cael ei gynnig ac mae wedi bod yn ffantastig. Rwyf wedi gweithio'n galed ac roedd gen i ddwy swydd i gadw dau ben llinyn ynghyd ac am ychydig o flynyddoedd wnes i'n orau glas, ond wedyn roedd yn anodd i mi gadw at hyn a rhoddais y gorau i un swydd; roedd hyn yn golygu bod rhaid i mi fynd yn ôl i fyw at mam. Oherwydd Covid, roedd y wlad yn trio cartrefu pawb, ac felly, fe wnes i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a chefais fy rhoi mewn hostel. Roeddwn i wedi bod mewn hostel o'r blaen, ac roeddwn i'n ffeindio hynny'n eithaf anodd. Byddai pobl yn mynd a dod, ac roedd yn teimlo fy mod wedi bod yno am amser hir a dywedodd staff yr hostel fy mod angen cymorth ychwanegol.

"Ychydig o flynyddoedd wedyn, symudais i Gorris Uchaf, ac o hynny ymlaen, rwyf wedi cael pobl dda, onest yn fy helpu i pan doeddwn i ddim yn sylweddoli mod i angen, ac mae pethau wedi gwella i mi. Mae fy stori yn un da ond gyda lot o waith caled a thor calon hefyd.

"Yn 2021, cefais gynnig yr eiddo yma. Rwyf gydag Adra rŵan, ac roedd yn bwysig i mi gael ail ystafell wely oherwydd bellach rwy'n Daid balch. Rwyf wrth fy modd yn cael y plant yma, maent yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'r cymorth dwi wedi'i gael gan Adra wedi fy ngwneud yn llawer mwy hyderus fel unigolyn."



## Gwasanaeth Tai Cefnogol

**Mae gennym 20 safle tai cefnogol ledled Gwynedd, gyda swyddog yn gyfrifol am bob safle i helpu tenantiaid i fyw'n annibynnol.**




**19** o weithgareddau wedi'i cynnal ar gyfer tenantiaid. **87** yn cymryd rhan yn rheolaidd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Parti Calan Gaeaf yn Hafan Elan, Llanrug
- Sgwrs Diogelwch Bro PCSO, Llys Dewi Sant, Bangor
- Darparu bocsys bwyd Nadolig yn Tan y Mur, Caernarfon
- Dodrefn gardd newydd ar gyfer gardd gymunol yn Fflatiau Ffynhonnau, Dolgellau

# Iechyd Meddwl

Cymru iachach    Cydweithio    Atal

Mae gan Adra Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith gyda 3 hwb iechyd meddwl cymunedol yng Ngwynedd:

- Tan y Maen, Blaenau Ffestiniog;
- Canolfan Abbey Road, Bangor a
- Felin Fach, Pwllheli

**70** o gyfeiriadau wedi ei gwneud

**£10,050** = cyfraniad ariannol Adra

## Peilot Gwydnwch Iechyd Meddwl Pobl Ifanc - Cartrefi Cymunedol Cymru

Cafodd rhaglen bêl-droed Ysgol Nefyn ei gynnal dros gyfnod o 3 mis ac roedd y sesiynau yn cael eu harwain gan Gethin Jones o Glwb Pêl-droed Y Bala, gydag un aelod o staff Adra yn cynorthwyo yn ystod bob sesiwn.

Nod y sesiynau oedd ymgysylltu gyda disgyblion mewn gweithgaredd chwaraeon tra hefyd yn hybu a normaleiddio iechyd meddwl. Daeth hyn hefyd yn dilyn cwyn gan drigolion am gemau pêl yn y llecyn gwyrdd yn y stad ac roedd Adra yn awyddus i ddelio'n gadarnhaol â'r gŵyn, ac felly, roedd cychwyn y rhaglen yn golygu mynd i'r afael gyda'r naill fater a'r llall.

**35 o blant wedi cymryd rhan gyda £137,526 o werth cymdeithasol wedi ei greu.**

## Cadw ein tenantiaid yn ddiogel

Mae Adra wedi ymrwymo i amddiffyn grwpiau agored i niwed ac ymdrin yn effeithiol â honiadau, pryderon neu ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustod.

Mae ein holl staff ac aelodau bwrdd yn cael hyfforddiant diogelu, sy'n eu helpu i adnabod arwyddion o gam-drin/esgeulustod posib.

**168 o gyfeiriadau diogelu.**



**723** o addasiadau wedi eu darparu er mwyn cyrraedd anghenion unigolion a theuluoedd. **£500,916** o Werth Cymdeithasol wedi ei greu.

## Stori Tanya

Mae Tanya yn fam i bedwar ac yn byw yn Deiniolen.

Mae wedi dioddef gyda phroblemau symudedd, ar ôl cael tynnu dau diwmor o'i ffemwr yn 2019.

Mae hi a'i theulu wedi bod yn byw yn eiddo Adra am bum mlynedd ac yn ystod yr amser hwnnw, mae gwaith addasiadau wedi'i wneud i'r eiddo, gan gynnwys gosod dreif a chegin newydd.

Dywedodd Tanya: "Mae'r newidiadau i'r gegin wedi bod yn anhygoel oherwydd, o'r blaen doedden ni ddim yn gallu eistedd gyda'n gilydd fel teulu, ac roedd rhaid rhoi popeth mewn 'slow cooker'. Rŵan dwi'n gallu paratoi cinio ac rydym mewn ac allan o'r un ystafell.

"Mae gen i le ar gyfer peiriant golchi llestri nawr hefyd, ac mae hynny lot haws i mi oherwydd dwi ddim yn gorfod sefyll i olchi llestri ac mae'n lleihau'r pwysau ar fy nghoes. Hefyd, cyn gwneud y gwaith, roedd y peiriant sychu dillad yn yr ystafell fwyta a'r peiriant golchi dillad yn y gegin, felly roedd rhaid i mi gario llwyth trwm o ddillad. Rŵan, mae'r ddau yn yr un lle, ac rwy'n llawer mwy cyfforddus gyda llai o waith cerdded o gwmpas y tŷ.

"Cafodd yr holl waith ei wneud tra'r oeddwn i ar wyliau gyda'm tair merch, mis Mehefin y llynedd ac felly, pan ddaethom yn ôl roedd y gwaith wedi'i gwblhau heb amharu llawer arnom ni.

"Mae cael dreif hefyd wedi'i gwneud yn haws i mi gario neges i'r tŷ oherwydd nad wyf yn gorfod cerdded mor bell â hynny. Mae Adra hefyd wedi lledu'r llwybr troed ar yr ochr sy'n ei gwneud yn haws i mi fynd â'r biniau allan."







# Cyflogaeth, Sgiliau a Hyfforddiant

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cydweithio

Atal

**Ein nod yw cynorthwyo 500 o bobl i gyflogaeth a hyfforddiant rhwng 2022 a 2025.**

**134** o bobl wedi cael cymorth i gyflogaeth a hyfforddiant yn 2022/2023: **80** o'r rheini wedi cael cymorth drwy recriwtio wedi'i dargedu a hyfforddiant drwy ein contractwyr; **43** wedi cael cymorth drwy Academi Adra; **8** wedi cael cymorth gyda phrentisiaethau o fewn Adra a phenodwyd **3** o'n tenantiaid.

Rydym yn cyflogi 24 o'n tenantiaid ar hyn o bryd.

- Tîm Asedau **4**
- Tîm Gosod: **2**
- Tîm Trwsio: **8**
- Canolfan Alwadau: **3**
- Tîm TGCh: **1**
- Tîm Rhent ac Incwm: **2**
- Tîm Gwasanaethau Bro: **4**

## Academi Adra

Mae Academi Adra yn dod ag amrediad o gyfleoedd ynghyd; cyfleoedd yr ydym yn gallu darparu gyda help ein partneriaid i gynorthwyo pobl i ddatblygu eu sgiliau a dod o hyd i gyflogaeth.

Yn 2022/2023:

- **6** cwrs wedi'i redeg
- **4** o bobl wedi cael cyflogaeth llawn amser yn sgîl y cyrsiau
- **1** unigolyn wedi cael prentisiaeth gydag Adra
- **43** unigolyn wedi cael hyfforddiant galwedigaethol*
- Buddsoddiad ariannol Adra yn Academi Adra 2022/2023 = **£6,706**

**£297,529** o werth cymdeithasol

*Ticedi adeiladu cydnabyddedig a hyfforddiant gwasanaeth cwsmer

Partneriaid Academi Adra oedd Gwaith Gwynedd, GISDA, Wynne Construction, Procure Plus, Richmond Bright, Môn CF, Maximus, DWP, Y Gwasanaeth Prawf, Cyngor Gwynedd, GH James, DU Construction, WF Clayton, Williams Homes Bala, Hyfforddiant Gogledd Cymru , North Wales Recovery Communities, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Fforwm Canolfan Gyswllt Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Stori Delyth

Cymerodd un o'n tenantiaid, Delyth, ran yn ein cwrs Gwasanaethau Cwsmer ym mis Ionawr 2023 a dyma beth oedd ganddi hi i'w ddweud:

"Collais fy ngwaith cyn Nadolig 2022, ac felly, wnes i sbïo ar wefan Adra am swyddi a dod ar draws y cwrs Gwasanaethau Cwsmer – ac felly, es i amdani! 'Nes i fwynhau – wnes i ddysgu gymaint a dod i adnabod lot o bobl newydd. Mae cymryd rhan wedi rhoi gymaint mwy o hyder i mi ac mae wedi bod yn 'agoriad llygaid' go iawn. Ar ôl y cwrs, cefais gyfweliad a chefais gynnig swydd yn y ganolfan gyswllt. Rwy'n falch o ddweud bod fy nghontract wedi'i ymestyn a gallaf yn awr gario 'mlaen i ddysgu a bod yno i helpu pobl."



## Stori Cai

Cymerodd Cai, sydd hefyd yn un o'n tenantiaid, ran yn ein cwrs Gwasanaethau Cwsmer cyntaf.

"Cyn i mi wneud cais am y cwrs, 'roeddwn yn gweithio rhan amser mewn gwesty. Gwelais y cwrs ar wefan Adra a phenderfynais ymgeisio oherwydd 'mod i'n chwilio am waith llawn amser. Mae'r cyfle wedi cael effaith gadarnhaol ar fy mywyd oherwydd dwi wedi dysgu cymaint o sgiliau newydd a chael profiad o weithio mewn amgylchedd swyddfa. Mae wedi cynyddu fy hyder ac rwy'n hapusach ers dechrau gweithio yn y ganolfan alwadau, oherwydd mae pawb wedi bod mor glên a chefnogol – rwy'n teimlo 'mod i'n rhan o deulu. Yn ddiweddar, dwi wedi ceisio am swydd Hyfforddai Tai gydag Adra, cefais y swydd, ac rwy'n falch dros ben 'mod i'n cael aros yma a chychwyn gyrfa newydd yn y sector dai".



## Prentisiaethau a Hyfforddeion

**8** unigolyn wedi cychwyn prentisiaeth neu gynllun hyfforddi gydag Adra.

Gwerth Gymdeithasol = **£125,469**

## Stori Declan - Prentis TGCh



"Roeddwn i wedi bod yn byw mewn eiddo Adra am tua 3 blynedd ac felly roeddwn yn gwybod am y busnes a'r cyfleoedd swyddi yr oedd ar gael ganddyn nhw. Oherwydd y pandemig a'r cyfnod clo roedd yn anodd i mi gael y cymorth yr oeddwn ei angen gan yr ysgol a'r coleg i chwilio am waith a datblygu gyrfa yn y sector TG, ac felly 'nes i ddechrau gweithio mewn tafarn yng Nghaernarfon i ennill ychydig o arian. Mis Medi y llynedd, 'nes i edrych ar wefan Adra a gweld prentisiaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) a phenderfynais fynd amdano. Mae'r gwahaniaeth o'r hyn dwi'n ei ddeall am TG ers cychwyn y brentisiaeth yn anhygoel – mae wedi bod yn wych gallu dysgu cymaint am bwnc sydd o ddiddordeb i mi. Rwy'n gobeithio y bydd cyfle i mi barhau i weithio yn TG, maes sydd o ddiddordeb mawr i mi, a rhoi rhywbeth yn ôl i'r busnes gyda'r sgiliau dwi wedi'u dysgu."

## Cael Effaith Bositif ar Lesiant ein Tenantiaid

### Bwyta'n Gall, Arbed Arian

Roedd hwn yn brosiect ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i gynorthwyo ac addysgu ein tenantiaid ar sut i baratoi prydau bwyd mewn ffordd gost effeithiol. Cymerodd grŵp o 10 tenant yn Llys Dewi Sant, Bangor ran yn y sesiwn; cafwyd cyflwyniad gan faethegydd o BIPBC; cafodd bob un o'r tenantiaid becyn o fwyd i fynd adref i roi'r dysgu ar waith.

### Prosiect Graffiti, Safle Bws Maesgeirchen

Prosiect i ail-baentio'r arosfan bws tu allan i swyddfa Partneriaeth Maesgeirchen ym Mangor oedd hwn. Roedd y safle bws wedi'i adleoli yn ddiweddar o ganol y ddinas i'r stad. Gan fod rhai o'r paneli wedi'u fandaleiddio a'u torri, cynhaliodd Adra brosiect gydag arlunydd lleol, Andy Birch a disgyblion ysgol leol i roi delwedd newydd i'r safle bws a dod a lliw i'r ardal.



# CYMUNEDAU

Fel busnes, rydym yn ceisio cyfrannu at fentrau sy'n canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth i greu cymunedau mwy diogel. I gyrraedd ein nod o gynorthwyo pobl i ffynnu, rydym yn cefnogi adnewyddu a chynaliadwyedd ein cymunedau a'u helpu i adnabod a chael mynediad at gyllid ar gyfer eu prosiectau a chynlluniau.





# Buddsoddi yn ein cymunedau

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru lewyrchus

Cymru o gymunedau cydlynus

Cynnwys

## Cadw ein Gwariant yn Lleol

**60%** o'n cyflenwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru

**52%** o'n cyflenwyr wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru

**£39.6m** cyfanswm gwariant gyda chyflenwyr lleol*

**361** o bobl leol yn cael eu cyflogi gan Adra

**71%** o'n cyflenwyr ar ein Cofrestr Contractwyr Cymeradwy yn fusnesau Micro, Bach a Chanolig

**£208,167** o gwerth Cymdeithasol wedi'i gynhyrchu drwy ein gweithgareddau caffael gyda chontractwyr

*Lleol = Gogledd Cymru

## Gweithio gyda'n contractwyr

Yn Adra, rydym yn gweithio yn agos gyda'n contractwyr i helpu i gyflawni ein pwrpas cymdeithasol o fewn ein cymunedau. Mae ein contractwyr yn ymrwymo i gynorthwyo mentrau gwerth cymdeithasol fel rhan o'u cyflwyniadau tendr yn ystod y broses gaffael.

## DU Construction – Prosiect Ysgol Maesincla



Cyn



Ar ôl

Mae DU Construction yn adeiladu cartrefi newydd ar gyfer Adra yn Ffordd Bethel, Caernarfon. Gofynnodd Ysgol Maesincla, ysgol gynradd gyfagos, am help i glirio darn o dir a oedd wedi gordyfu yn ystod y cyfnod clo, ac roedd DU Construction yn hapus i helpu fel rhan o'u hymrwymiadau gwerth cymdeithasol ynghlwm â'r contract. Darparwyd llafur, defnydd o gyfarpar a deunyddiau ganddyn nhw i glirio a lefelu'r ardal; roedd cyfanswm y gost yn **£1,350** iddyn nhw. Mae'r plant yn awr yn gallu defnyddio'r gofod hwn fel dosbarth tu allan ac roedd yr ysgol yn hapus iawn gyda'r canlyniadau.

## Rhodd Novus i Fanc Bwyd Eglwys Gadeiriol Bangor, casglu sbwriel a Rhodd o Wyau Pasg

Fel rhan o'u hymrwymiadau gwerth cymdeithasol ar eu contract gydag Adra yn Fflatiau Ffordd Caernarfon ym Mangor, rhoddodd Novus roddion bwyd i Fanc Bwyd Eglwys Gadeiriol Bangor. Dywedodd June o'r banc bwyd:

"Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr, oherwydd ein bod yn dibynnu yn gyfan gwbl ar roddion ac ni fyddai modd i ni gynnal y gwasanaeth hanfodol hwn heb y fath garedigrwydd. Mae lawer o bobl yn awr mewn angen mawr o'r banc bwyd yn arbennig yn yr amser caled hwn, ac felly, bydd eich rhoddion yn helpu llawer o bobl yn yr ardal hon. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cymorth hynod o werthfawr."



Yn ystod cyfnod y Pasg, bu iddynt gasglu 25 o wyau pasg a'u rhoi yn rhodd i'r banc bwyd.

## Bell Group - Rhodd Bwffe Llys Dewi Sant

Trefnwyd parti Nadolig ar gyfer tenantiaid Llys Dewi Sant a Chraig Menai ym Mangor a Maes y Garnedd ym Methesda. Talwyd am y bwyd drwy rodd o **£250** gan Bell Decorating Group, sydd ar hyn o bryd yn gwneud gwaith mewnol yn ein cartrefi yn yr ardal. Roedd hyn nid yn unig yn cefnogi ein tenantiaid, ond hefyd y darparwyr arlwyo, Bwyd Da Bangor, oherwydd eu bod yn fenter gymdeithasol leol. Talodd Adra am logi Neuadd Glanadda, sy'n cael ei redeg gan Glwb Pensiynwyr Glanadda, ac am y cludiant gan Bartneriaeth Ogwen, sydd hefyd yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio er budd yr economi, cymdeithas, a chymunedau Dyffryn Ogwen. Daeth y digwyddiad â phobl at ei gilydd a gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyswllt gyda phobl eraill dros gyfnod y Nadolig.

## Tê Prynhawn a Diddanwch ym Morfa Cafdan



Rydym yn awyddus i fynd i'r afael â'r effaith y mae teimlo'n ynysig ac unigrwydd yn ei gael ar rai o'n tenantiaid hŷn, ac mae'n rhywbeth yr ydym hefyd yn gofyn i gontractwyr sy'n gweithio i ni roi blaenoriaeth iddo. Fel rhan o'u hymrwymiadau gwerth cymdeithasol ar eu contract allanol yn Nhywyn, penderfynodd contractwyr lleol, GH James Cyf. roi **£500** fel rhodd tuag at dê prynhawn a phrynhawn o hwyl ar gyfer trigolion cartref gofal Morfa Cadfan. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i bawb gymdeithasu gyda'i gilydd a mwynhau te prynhawn; darparwyd y te prynhawn gan Pebbles Tea Room, Tywyn, gyda Total Leigh Music yn diddanu. Cafodd y trigolion chwarae bingo hefyd; ac roedd busnesau lleol wedi rhoi gwobrwyon amrywiol.



## Recriwtio wedi'i dargedu a hyfforddiant drwy ein contractwyr

**80** o bobl wedi'u cynorthwyo i gyflogaeth a hyfforddiant drwy ein contractwyr gyda chyflenwyr lleol. **41** o'r rheiny a gafodd gymorth gyda phrentisiaeth neu gynllun hyfforddi drwy ein contractau; **6** o'r rheiny wedi cael profiad gwaith ar y safle, **13** o'r rheiny yn newydd i'r diwydiant adeiladu a **20** o'r rheiny newydd gymhwyso, h.y. ar ôl cwblhau prentisiaeth neu gynllun hyfforddi.

### Stori Jac

Cymerodd Jac Ellis, un o'n tenantiaid o Gaernarfon ran yng nghwrs adeiladu Academi Adra ac o ganlyniad daeth i gysylltiad gydag un o'n contractwyr. Dywedodd Jac:

"Rwy'n awr yn gweithio gyda GH James Cyf a llwyddais i gael y swydd ar ôl cymryd rhan yng nghwrs adeiladu Academi Adra.

"Rhoddodd y cwrs brofiad i mi o'r maes iechyd a diogelwch, codi a chario, ymwybyddiaeth asbestos a chefais gerdyn CSCS hefyd.

"Mae gennyf swydd lawn amser yn awr fel labrwr ac mae'r cwrs wedi rhoi hyder i mi drio pethau newydd. Hoffwn ddatblygu ticedi mewn gyrru forklifft yn y dyfodol a pharhau i weithio mewn safleoedd adeiladu."





## Cefnogi busnesau lleol

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

Mae Snowdonia Fire Protection (SPF) yn un enghraifft o fenter fach leol sydd wedi ennill contract gwaith mawr gydag Adra. Wedi'i sefydlu fel masnachwr yn 1974, daeth SPF yn Gwmni Cyfyngedig yn 2003 ac mae ar hyn o bryd yn cyflogi tua 53 o bobl.

Fel rhan o'u contract, maent yn gosod, gwasanaethu, ac yn profi ein larymau tân, golau argyfwng a systemau chwistrellu. Maent yn gwneud hyn ar ein safleoedd ym mhob rhan o Wynedd ac wedi bod yn gweithio gyda ni ers mis Mawrth 2021.

Mae eu pencadlys ym mhentref gwledig Waunfawr, ger Caernarfon, ac mae ganddynt swyddfeydd ym Mae Cinmel ac Aberystwyth. Dros y blynyddoedd mae'r cwmni wedi ehangu yn raddol, ac yn awr yn darparu cyflogaeth llawn amser, sy'n talu'n dda i bobl ledled Cymru a Swydd Amwythig.

Dywedodd llefarydd ar ran y cwmni:

"Ers i ni gael y cytundeb gyda Adra rydym wedi cael tri o bobl yn cychwyn gweithio gyda ni – un ohonyn nhw fel prentis. Mae'r cytundeb yn golygu y gallwn ganfod gwaith iddyn nhw. Rydym yn ceisio cyflogi un prentis bob blwyddyn drwy'r coleg. Gan ei fod yn rôl arbenigol mewn diogelwch tân rydym eisiau eu cael nhw mewn a'u hyfforddi. Fel arfer maen nhw'n lleol i ardal Caernarfon neu Ynys Môn.

## Cronfa Buddsoddi Gymunedol

**17** grŵp cymunedol wedi cael budd o'r gronfa ac mae bron i **£17,000** wedi'i rannu yn y flwyddyn ddiwethaf i'r prosiectau/grwpiau canlynol:

- Clwb Cyfeillion Llys yr Eifl, Caernarfon
- Clwb Cymunedol Maestryfan
- Cwmni Bro Antur Aelhearn, Llanaelhaearn
- 1st Tywyn Brownies
- Curiad Calon Pwllheli
- Clwb Ieuenctid Bethel
- Y Tir Allotment & Orchard Group
- Prosiect Plas Carmel
- Clwb Bocsio Caernarfon
- Y Dref Werdd
- Clwb Bowlio Trefor
- Tŷ Peblig, Caernarfon
- MaesNi, Bangor
- MaesG Showzone
- Pwyllgor Pentref Deiniolen
- Grŵp Cymunedol Brynrefail
- Clwb Ieuenctid Llanrug

### Cwmni Bro Antur Aelhaearn

Derbyniodd Cwmni Bro Antur Aelhaearn, £1,000 drwy'r gronfa sydd wedi'i ddefnyddio i gefnogi llawer o brosiectau, gan gynnwys grŵp gwenyn a'r prosiect Atal Drafftiau; maen nhw wedi bod yn gweithio arno ar y cyd gyda Croeso Cynnes, Costau Byw a Chefnogaeth Cymunedol. Maent hefyd yn chwilio am ffyrdd i gynorthwyo pobl gyda chostau tanwydd gan ddod i'r casgliad y byddai gwneud eitemau atal drafftiau eu hunain yn brosiect gwych, ac roedd yn rhoi cyfle iddyn nhw weithio gyda Gwenan Williams o Gwanyar. Dysgodd rhai o'r grŵp sut i ddefnyddio peiriant gwnïo a rhannwyd yr eitemau atal drafftiau am ddim i bobl yn y gymuned.

Dywedodd Lynda Cox, ysgrifennydd y cwmni: "Ni allaf bwysleisio ddigon pa mor bwysig yw cymorth ariannol Adra i ni a'r prosiectau yma - rydym yn ddiolchgar iawn".





## Creu Cymunedau Diogel

Rydym eisiau i'n holl denantiaid fyw mewn amgylchedd diogel a braf. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n tenantiaid, heddlu, a chynghorau lleol, yn ogystal â sefydliadau eraill i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, datrys problemau a gwella ansawdd bywyd ein tenantiaid a thrigolion.



**607** achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ymdrin a nhw.

**£1,251,391** o werth cymdeithasol.

**90%** o'n tenantiaid yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn eu cymdogaeth.

## Prosiectau Cymunedol

### Prosiect Carn - Llwybr y Plas

Gweithiodd Adra gyda phartneriaid i wella murlun yn Llwybr y Plas yng Nghaernarfon. Y nod oedd helpu pobl ifanc i gael balchder yn eu hardal leol; mae llawer iawn o ymddygiad gwrth-gymdeithasol wedi bod yn gysylltiedig â'r llwybr yn y gorffennol.



Dywedodd Manon Gwynedd, Pennaeth Ysgol Maesincla: "Mae wedi bod yn braf gweithio gydag Adra a'r arlunydd Catrin Williams ar y prosiect hwn i integreiddio'r gymuned a'r ysgol. Mae disgyblion Ysgol Maesincla yn lwcus iawn ac wedi cael profiad gwerthfawr."

### Gwesty Seren, Llan Ffestiniog

Roedd y prosiect hwn yn cefnogi'r elusen Seren, sydd wedi'i leoli ym Mlaenau Ffestiniog. Gwesty Seren yw'r ychwanegiad diweddaraf i weithrediadau masnachol yr elusen a chafodd ei ddylunio yn benodol ar gyfer pobl ag anableddau corfforol a dysgu.

Gwnaeth Gwesty Seren gais i raglen S4C, Prosiect Pum Mil, i adfer gerddi'r gwesty a chawsant eu derbyn ar y rhaglen. Roedd Adra yn cynorthwyo ar ddiwrnod y ffilmio, gyda 4 aelod o staff yn helpu gyda'r paentio ac ati, a rhoddodd Travis Perkins werth **£1,840** o ddeunyddiau i adeiladu pergola yn yr ardd. Gofynnodd ein his-gontractwr, Hankinson, fel rhan o'u hymrwymiadau gwerth cymdeithasol, i'w partneriaid, SW Joinery, ddarparu eu llafur am ddim i adeiladu pergola a rhoddodd eu contractwyr torri gwair, Sheratts, eu hamser drwy strimio a thorri unrhyw dir a oedd wedi gordyfu. Mae'r ardd bellach yn gwbl hygyrch, a gall gwesteion a staff fwynhau'r golygfeydd anhygoel.

## Prosiect Rhandiroedd, Dyffryn Ardudwy

Mae Adra wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Tir Allotment and Orchard Group yn Nyffryn Ardudwy, i greu gerddi cymunedol o fewn rhandiroedd lleol. Cafodd y grŵp ddarn o dir heb ei ddefnyddio gan Adra, ac mae dros 30 rhandir unigol yn awr wedi'u creu gan y grŵp - gyda'r gwirfoddolwyr wedi gwneud y gwaith i gyd.

Mae un rhandir wedi'i roi i grŵp o bobl ag anableddau dysgu a bydd hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw ddatblygu sgiliau newydd. Mae'r grŵp hefyd wedi cael cyllid i ehangu'r prosiect ac mae Adra wedi darparu tir i hyn ddigwydd. Nod y prosiect yw creu gerddi synhwyraidd, perllan a llwybr natur a fydd yn cychwyn o'r tir uchaf ac yn mynd i lawr at gefn ein stad Pentreuchaf yn Nyffryn Ardudwy.





## Prosiect Canfas, Caernarfon

Canfas yw prosiect sy'n cael ei redeg gan Galeri Caernarfon gyda'r nod o wella edrychiad lleoliadau amrywiol o fewn Caernarfon. Drwy drafodaethau ac ymweliadau, penderfynwyd y byddai stad Adra, Bro Seiont, Caernarfon yn cael ei dynodi fel un lleoliad.

Elfen bwysig o'r prosiect yw gwrando ar lais y gymuned ac mae syniadau a thema'r prosiect yn cael ei arwain gan y bobl sy'n byw yno. Fel rhan o'r prosiect, trefnwyd prynhawn hwyl gan Galeri ac Adra, a daeth y trigolion at ei gilydd i sgwrsio, bwyta pitsa, a rhannu syniadau am sut y gellid gwneud gwell defnydd o'r llecynnau gwyrdd yn y stad.

Bydd y llecyn gwyrdd yng nghanol y stad yn cael ei drawsnewid yn fuan i ardal chwarae a hamdden gynaliadwy ar gyfer plant a thrigolion i fwynhau. Yn ychwanegol, drwy'r ymgysylltu â thenantiaid a gafodd ei gynnal yn ystod y prosiect, mae Adra a Chyngor Gwynedd wedi mynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y stad.

## Digwyddiad 'Nid Dim ond ar gyfer Bechgyn' gyda Chwarae Teg

Rydym yn awyddus i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu, ac rydym yn annog menywod, yn ogystal â grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgeisio am swyddi gyda ni mewn sector sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel arfer.

Ar y cyd gyda Chwarae Teg, bu i ni gynnal digwyddiad 'Nid dim ond ar gyfer bechgyn'; cafodd 65 o ferched o Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, gyfle i gael blas o weithio yn y maes adeiladu yn ein swyddfeydd yn Nhŷ Gwyrddfai, Penygroes. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn annog mwy o ferched a menywod i ystyried gyrfa yn y diwydiant.

Cyfanswm Gwerth Cymdeithasol = **£17,059**



# Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

**Hirdymor**

**Mae gan Adra Gynllun Iaith Gymraeg ar waith gyda'r egwyddor sylfaenol o sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.**

Ar ddiwedd 2022/23, roedd 92% o staff Adra yn gallu siarad Cymraeg ac rydym yn hyfforddi ac yn annog staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith i sicrhau bod yr egwyddor ddwyieithog yn cael ei ddefnyddio ym mhob gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel Nant Gwrtheyrn a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i gynnig hyfforddiant sy'n diwallu anghenion amrywiol aelodau o staff sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg neu wella a datblygu eu sgiliau.

Ond gallwn wneud llawer mwy. Rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i helpu Llywodraeth Cymru i gwrdd â'i darged uchelgeisiol i sicrhau un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ymhlith pethau eraill.



## Stori Kath



Mae Kath Hughes wedi bod gydag Adra ers pum mlynedd.

Yn wreiddiol o Bedford, symudodd i Ogledd Cymru gyda'i theulu ac aeth i ysgol uwchradd yn Llanrwst. Cafodd ei rhoi yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg a dyfarnwyd TGAU Cymraeg ail iaith sylfaen i Kath.

Cyn Adra, roedd Kath wedi ymgymryd â nifer o swyddi lle nad oedd unrhyw bwyslais ar ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, pan ymunodd gydag Adra; un o amodau ei chontract oedd y byddai'n mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg.

Cafodd Kath ei hasesu yn gyntaf gan Brifysgol Bangor; penderfynodd y Brifysgol y byddai'r cwrs Pellach yn addas iddi. Roedd dosbarthiadau yn cael eu cynnal yn gyntaf ym Mangor cyn symud i Lanrug ac wedyn ar-lein yn ystod Covid.

Mae Kath yn parhau i gael sesiwn hanner awr yr wythnos gyda thiwtor i wella ei sgiliau.

Dywedodd: "Mae dysgu Cymraeg wedi rhoi lot mwy o hyder i mi a gallaf ddefnyddio'r iaith rŵan pan dwi'n siarad gyda thenantiaid. Rwyf hefyd yn defnyddio app Duolingo bob dydd i ddal ati i ddysgu'r iaith.

"Yn ystod y cyfnod clo, roeddwn yn mynd i sesiynau 'Paned a Sgwrs' a oedd yn cael eu trefnu gan Adra i barhau i ddysgu'r iaith ac mae rhai aelodau o staff yn siarad Cymraeg yn unig hefo fi oherwydd eu bod yn gwybod 'mod i'n dysgu, sy'n help mawr.

"Rwyf hefyd yn deall pethau pan mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg".

Mae Kath yn gobeithio parhau gydag addysg ffurfiol iaith Gymraeg flwyddyn nesaf ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth a ddarparwyd gan Adra.

## Cwrs Blasu Galwedigaethol

Ym mis Mawrth 2022, bu i Adra weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu cwrs blasu galwedigaethol 'Cymraeg Gwaith' a oedd wedi'i deilwra yn benodol ar gyfer y sector tai cymdeithasol. Mae'r cwrs yn awr ar wefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac ar gael i unrhyw un ei gwblhau am ddim. Yn ystod 2022/2023, roedd **13** unigolyn wedi dilyn y cwrs yn rhannol neu wedi'i gwblhau.

Cymraeg Gwaith
Work Welsh

## Prosiectau Iaith Gymraeg a Diwylliant

### Ffair Iaith yn Ysgol Dyffryn Nantlle

Cynhaliwyd gweithdy yn Ysgol Dyffryn Nantlle gyda 40 disgybl ym mlwyddyn 9; eglurwyd sut y mae Adra yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle. Roedd busnesau lleol ac unigolion amrywiol wedi mynychu'r digwyddiad. Cafodd y disgyblion eu rhannu i grwpiau a rhoddwyd y cyfle iddynt siarad gydag Adra a dysgu am lwybrau gyrfa posib o fewn y cwmni, gan gynnwys Academi Adra a'r cyfleoedd prentisiaeth yr ydym yn eu cynnig.

### Sesiwn Blasu Cymraeg yn Llys Dewi Sant

Cydweithiodd Adra gyda Menter Iaith Bangor a threfnu sesiwn blasu Cymraeg ar gyfer ein tenantiaid, a gafodd ei gyflwyno gan Mei Owen o Hunaniaith. Bu i **24** o'n tenantiaid yn Llys Dewi Sant cymryd rhan; fe wnaethon nhw fwynhau panad o de a theisen, cwis Dydd Gŵyl Dewi, a chafodd disgyblion o ysgol gynradd leol hefyd eu gwahodd i ganu caneuon Cymraeg.

### Taith Iaith Ysgolion



Roedd Adra wedi cydweithio ag Ameer Davies-Rana, ar ei brosiect 1Miliwn, sy'n deillio o darged Llywodraeth Cymru i gael un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Aeth Adra ac Ameer ar daith o amgylch ysgolion uwchradd ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys:

- Ysgol y Creuddyn
- Ysgol Glan y Môr
- Ysgol Dyffryn Conwy
- Ysgol Tryfan
- Ysgol Brynrefail
- Ysgol Dyffryn Nantlle

**150** o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau.

Y bwriad oedd hyrwyddo'r iaith Gymraeg a dangos ei fod yn iaith ddiddorol sy'n cael ei defnyddio bob dydd, yn y byd gwaith, nid yn unig fel iaith addysg.

### Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi - Maes Padarn

Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys rhannu bocsys te prynhawn a chennin pedr i drigolion ym Maes Padarn ar Ddydd Gŵyl Dewi fel ffordd o ddweud diolch am eu hamynedd a chydweithrediad yn ystod gwaith allanol sydd wedi bod yn mynd ymlaen ar y stad gan ein his-gontractwyr, W.F.Clayton.

Mae'n bwysig bod ein cymunedau yn cael budd o'n gwaith, felly cafwyd rhodd o **£500** gan W.F. Claytons i dalu am y bocsys, a gafodd eu prynu gan fusnes wedi'i leoli yn Llanberis sef Llety Plas Coch. Roeddem hefyd yn dymuno defnyddio'r cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd diwylliant Cymraeg o fewn ein cymunedau, ac i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y stad drwy roi rhywbeth yn ôl i holl drigolion Maes Padarn.

# CARTREFI

Cymru iachach

Cymru lewyrchus

Hirdymor

Yn Adra, credwn fod gan bawb yr hawl i gael to uwch eu pennau a gallwn wireddu hynny.

Mae cartref diogel yn sylfaen ar gyfer bywyd llawn, ac rydym yn ceisio darparu cartrefi ble gall pobl deimlo'n falch ohonyn nhw, ar gyfer cwsmeriaid presennol a newydd.

## Tîm Trwsio



**19,281** cais wedi'u trin y llynedd gan ein tîm atgyweirio mewnol, Tîm Trwsio, a **93%** o'n tenantiaid yn dweud eu bod yn fodlon â'r ffordd yr ydym yn atgyweirio ac yn cynnal eu cartrefi. Cyfanswm y gwerth cymdeithasol a gafodd ei greu gan yr atgyweiriadau yma oedd **£1,101,948**.

Ym mis Awst 2022, dechreuodd Tîm Trwsio weithio hefyd ar adeiladu dau o'u cartrefi cyntaf; dyma'r cartrefi cyntaf iddyn nhw eu hadeiladu fel contractwr mewnol.

Mae'r cartrefi pâr ym Mro Pedr Fardd yn Garndolbenmaen wedi cael eu hadeiladu i safonau'r diwydiant gyda phaneli solar a phympiau gwres ffynhonnell aer i'w gwneud mor ynni effeithlon â phosib ac mae prentisiaid Adra wedi bod yn gweithio ar y safle ers cychwyn adeiladu.

## Gwella ein Cartrefi Presennol

Rydym yn deall pa mor bwysig yw'r tai yr ydym yn eu darparu i denantiaid, ac i ni. Rydym yn dymuno parhau i fuddsoddi a gwario ar ein cartrefi presennol yn ogystal ag adeiladu cartrefi newydd o ansawdd da i ddiwallu'r angen lleol o ran tai.

Un ffordd o fynd i'r afael gyda hyn yw cynnal gwaith gwella tai allanol ym mhob rhan o Wynedd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Gwaith allanol fel llwybrau a ffensio.
- Gwaith mewnol fel adnewyddu ceginau, ystafelloedd ymolchi ac ailweirio.
- Gwaith ynni effeithlon fel inswleiddiad wal allanol, ffenestri UPVC newydd a drysau a thoeau newydd.



**£12.1m**
wedi'i wario ar uwchraddio ein cartrefi presennol yn 2022/23.

**494** o gartrefi wedi cael gwaith gwella.

# Adeiladu Cartrefi Newydd

Llynedd, cafodd cyfanswm o **118** o gartrefi newydd eu hadeiladu gan Adra, gyda buddsoddiad cyffredinol o **£44** miliwn.

Cafodd y cartrefi eu hadeiladu yn y siroedd canlynol:

- Gwynedd = **35**
- Conwy = **50**
- Sir Ddinbych = **2**
- Wrecsam = **20**
- Sir y Fflint = **11**

Mae gan holl gartrefi adeiladu o'r newydd Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) sgôr B neu uwch (A yw'r gorau a G yw'r gwaethaf) sy'n golygu bod yr eiddo yma yn rhatach i'w rhedeg i'n tenantiaid.

## Datblygiadau Hygyrch

Roedd teulu lleol gyda 6 o blant ac nid oedd eu hanghenion o ran tai yn cael eu diwallu. Roedd gan un o'r plant anableddau dwys ac angen gofal 24-awr; ar ôl trafodaeth gyda'r cyngor lleol, yr unig opsiwn oedd eiddo newydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol. Cafodd un o'n safleoedd ei adnabod, a chafodd cynllun addas ei ddatblygu gyda chymorth Therapydd Galwedigaethol y teulu. Cafodd y Grant Tai Cymdeithasol ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar y cyd gyda swm atodol i gynnwys yr addasiadau; cafodd byngalo dormer 6 ystafell wely ei adeiladu ar gyfer y teulu, a oedd yn cynnwys ystafell wely wedi'i haddasu'n gyfan gwbl ac ystafell ymolchi ar gyfer eu plentyn.

Dywedodd Tracy Williams, Therapydd Galwedigaethol Cyngor Gwynedd:

"Drwy gynllunio gofod teulu digonol o fewn y gegin, ystafell fyw a'r ardd, caiff y plentyn ei gynnwys o fewn yr aelwyd ac nid ei 'adael ' yng nghornel yr ystafell. Gan fod yr eiddo wedi'i adeiladu wrth ymyl lle maent yn byw ar hyn o bryd, mae'r teulu wedi aros o fewn eu cymuned leol ac yn agos i'w hybiau o gymorth, sy'n rhyddhad mawr i deuluoedd."




# Fframwaith Deunyddiau Cymru

Yn 2022/2023, bu i ni lansio fframwaith cenedlaethol newydd i ddarparu siop un stop ar gyfer deunyddiau gyda Travis Perkins Managed Services, rhan o fasnachwyr adeiladu mwyaf y DU, Travis Perkins PLC.

Ymunodd chwe aelod â'r fframwaith, sy'n cael ei reoli gan Adra, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Cartrefi Conwy, Cymdeithas Dai Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin a Tai Calon, gyda'r fframwaith yn agored i holl gymdeithasu tai, awdurdodau lleol, a chyrff y sector gyhoeddus ehangach yng Nghymru. Enillodd Travis Perkins Managed Services y tendr.

Fel rhan o'r bartneriaeth arloesol hon, bydd aelodau Fframwaith Deunyddiau Cymru yn gyrru gwerth cymdeithasol, gyda Travis Perkins yn ymrwymo 1.5% o gyfanswm gwariant y fframwaith ar ddeunyddiau i mewn i gronfa fuddsoddi gymunedol i gefnogi mentrau lleol, gan gynnwys cynnig cyfleoedd i hyfforddeion a phrentisiaethau

Cyfanswm cronfa gwerth cymdeithasol
**£159,704**

Cyfanswm gwariant drwy'r fframwaith
**£10,646,929**

Cyfanswm gwariant Adra drwy'r fframwaith
**£3,596,171**



# AMGYLCHEDD

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Atal

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a lleihau allyriadau carbon o'n holl weithgareddau busnes, gan roi cynaliadwyedd yn flaenllaw ym mhopeth a wnawn.

Mae Adra yn gweithredu ar newid hinsawdd i ddatgarboneiddio'r cwmni a'r cartrefi yr ydym yn eu darparu a sbarduno dyfodol cynaliadwy i gymunedau ledled Gogledd Cymru.





## Beth yr ydym yn ei wneud?

- Monitro a mesur ein hallyriadau carbon yn fisol ers 2018
- Blaenoriaethu datgarboneiddio ein cartrefi a'r busnes
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol i'n haelodau o staff; o ganlyniad, rydym wedi cael gwobr Efydd am ein hyfforddiant Llythrennedd Carbon.
- Gosod pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan / hybrid yn ein swyddfeydd
- Hyd yma, **10%** o'n fflyd yn geir trydan / hybrid

## Prosiect Sero Net Gwynedd

Mae ein hymrwymiad i leihau ein heffaith amgylcheddol wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol, fel y dangoswyd gan ein Prosiect Net Sero Gwynedd yn dod yn safle cyntaf yng Ngwobrau Tai'r Gogledd.

Amcan y prosiect oedd sefydlu ffordd i gwrdd gyda, a rheoli heriau datgarboneiddio stoc tai Gwynedd. Yn gweithio gyda nifer o brif bartneriaid a grwpiau cymunedol rydym wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o arbed ynni o fewn cymunedau, gan ddangos buddion technolegau gwyrdd, cryfhau cadwyni cyflenwi drwy hyfforddiant wedi'i dargedu a chefnogi datblygu ein Canolfan Ddatgarboneiddio o Ragoriaeth, ym Mhenygroes, y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig.

**£784,000** wedi ei fuddsoddi yn y prosiect drwy Gronfa Adfywio Gymunedol Llywodraeth Cymru ac arian cyfatebol gan Adra.

Adra sydd wedi arwain y prosiect, yn gweithio yn agos gyda Datblygiadau Egni Gwledig, Partneriaeth Ogwen, Grŵp Cynefin a Grŵp Llandrillo Menai. Drwy'r prosiect cafodd yr allbynnau canlynol eu cyflawni:

- Creu **11** swydd newydd, gyda **10** unigolyn yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau newydd.
- Ymgysylltu gyda thros **2,000** o gartrefi yng Ngwynedd ar sut i arbed ynni.
- **116** o archwiliadau ynni wedi'u cynnal.
- Wedi ymgysylltu gyda thros **100** o gwmnïau drwy'r prosiect, gyda **47** yn cael budd o ddarpariaeth hyfforddiant newydd i wella sgiliau a gwybodaeth yn y maes datgarboneiddio.
- **5** hwb cymunedol wedi cael budd o fuddsoddiad cymedrol mewn technoleg newydd i leihau allyriadau carbon fel paneli solar a gwydr dwbl.



## Porthi Dre, Caernarfon

Wedi cychwn fel grŵp bach o wirfoddolwyr yn helpu pobl fregus yn ystod y pandemig, mae Canolfan Gymunedol Porthi Dre yn awr yn enghraifft ragorol o sut y gall ynni adnewyddadwy ein helpu i gyrraedd sero net.

Wedi cael asesiad Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) ac adroddiad datgarboneiddio, cafodd y ganolfan ei chefnogi gan Brosiect Sero Net Gwynedd. Gyda chost ynni yn uwch nag erioed, defnyddiwyd y buddsoddiad i osod 30 panel solar ar do y ganolfan gymunedol, i ddarparu pŵer i gegin fodern newydd Porthi Dre. Gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy, mae'r ganolfan gymunedol yn awr yn gallu paratoi 150 pryd o fwyd bob dydd, ar gost ynni llawer rhatach, mewn adeilad gyda sgôr D blaenorol o ran ei berfformiad EPC.

Dywedodd Cemlyn Williams, arweinydd Porthi Dre: "Roedd angen mawr yng Nghaernarfon am ganolfan cymunedol newydd a fyddai'n cynnig ystod eang o wasanaethu fel cyngor ariannol a phrydau am ddim. Oherwydd bod costau ynni'r gegin yn awr yn llawer rhatach, gallwn baratoi bwyd ar raddfa fawr a darparu prydau cynnes i bobl sy'n methu talu tuag at y gost. Rwy'n gobeithio y bydd canolfan Porthi Dre yn annog pobl eraill i ddefnyddio ynni gwyrdd yn y gymuned, a chynyddu eu dealltwriaeth o dechnoleg ynni adnewyddadwy ar lefel leol yn hytrach na bod hyn yn gysyniad haniaethol. Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o Brosiect Sero Net, sy'n cyfrannu at yr agenda werdd yn ogystal â chefnogi cymuned Caernarfon".



# Prosiectau Amgylcheddol

## Prosiect Tŷ Natur

Roedd Prosiect Tŷ Natur yn ymdrech ar y cyd rhwng Adra, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid eraill gan gynnwys Cadwch Gymru'n Daclus, Heddlu Gogledd Gymru, a'r Dref Werdd, a oedd wedi anelu at hyrwyddo a chynyddu bioamrywiaeth ar ein stadau. Mae pedwar lleoliad wedi bod hyd yma:

- Hafan Deg, Tanygrisiau
- Bryn Coed, Llan Ffestiniog
- Pentreuchaf, Dyffryn Ardudwy
- Cysgod y Coleg, Y Bala

Yn Hafan Deg, mae'r Dref Werdd, wedi cymryd prydles ar ddarn o dir i'w ddatblygu ymhellach.



## Diwrnodau Amgylcheddol

Ers cychwyn cynnal ein diwrnodau amgylcheddol ar y cyd gyda'n partneriaid yn ôl yn 2021, maent wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'n tenantiaid. O ganlyniad, penderfynwyd cynnal **4** arall ar ein stadau llynedd.

Mae'r dyddiau yma'n galluogi i'n tenantiaid gael gwared o wastraff a nwyddau di-angen o'i cartrefi, ac fel rhan o'r diwrnodau, mae sgipiau yn cael ei lleoli ar draw y stadau er mwyn cael gwared ar wastraff cymysg.



### Partneriaid Allanol:

- Williams & Williams Skip Hire
- Antur Waunfawr
- BM Steel
- Cyngor Gwynedd
- Y Dref Werdd
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Grŵp Cynefin
- Cynghorwyr lleol
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru

## Prosiect Blodau Gwyllt Dolydd, Abercaseg

Roedd hwn yn brosiect er mwyn gosod glaswellt bywyd gwyllt yn y llecynnau gwyrdd o gwmpas stad Abercaseg ym Methesda, mewn partneriaeth â Phartneriaeth Ogwen.





# Tabl Canlyniadau Gwerth Cymdeithasol

| Gweithgaredd | Gwerth Cymdeithasol (£) |
|---|---|
| Academi Adra | £297,529 |
| Addasiadau | £500,916 |
| Atal Digartrefedd | £156,576 |
| Contractau Lleol (Asedau ac Adeiladu o'r Newydd) | £208,167 |
| Datrys ymddygiad gwrthgymdeithasol | £1,251,391 |
| Digwyddiad 'Nid dim ond ar gyfer bechgyn' | £17,059 |
| Gwasanaeth Aros Adra | £48,165 |
| Gwasanaeth Cyfeirio Cyngor ar Bopeth | £1,906,329 |
| Gwasanaeth Trwsio, Cynnal a Chadw | £1,101,948 |
| Prentisiaethau a Hyfforddeion | £125,469 |
| Prosiect Pêl-droed Nefyn | £137,526 |
| **Cyfanswm** | **£5,751,074** |

## Cyfeiriadau

**Banc Gwerth Cymdeithasol, HACT a Simetrica (www.hact.org.uk / www.simetrica.co.uk).**
Ffynhonnell : www.socialvaluebank.org
Trwydded: Creative Commons. Attribution-non Commercial-No Derivatives licence (http://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/deed.en_GB)

**National TOMs Wales, Social Value Portal Ltd.**
Ffynhonnell : socialvalueportal.com
Creative Commons Attribution-NonCommercial-NoDerivatives 4.0
Trwydded Ryngwladol (https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Cafodd yr adroddiad yma ei chynhyrchu a'i rhannu gyda Cwmpas ar gyfer gwirio ansawdd.